

## Proffil angen

**Dim ond** ar gyfer y canlynol y dylid defnyddio'r ffurflen hon:

- ymgeiswyr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio
- ymgeiswyr â chyflwr meddygol (sydd wedi cael diagnosis ffurfiol gan arbenigwr cofrestredig)
- ymgeiswyr ag anghenion synhwyrdd a/neu gorfforol
- ymgeiswyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl
- ymgeiswyr ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu
- ymgeiswyr ag anawsterau dysgu sy'n destun EHCP cyfredol (Lloegr), Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (Gogledd Iwerddon) neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru)
- ymgeiswyr ag anawsterau dysgu sydd angen darlennydd cyfrifiadur/darlennydd ond **nad oes** angen amser ychwanegol neu ysgrifennydd
- **pob** ymgeisydd sydd angen egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth.

**Rhaid** cyflwyno ceisiadau am y cymwysterau canlynol gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- Cymwysterau Technegol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 AQA
- Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach AQA
- Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol AQA
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt
- FSMQ
- TAG
- TGAU
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- Cymwysterau Cymhwysol Lefel 3 CBAC.

(**Noder: Nid oes** angen cais ar-lein am egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth.)

**Rhaid** defnyddio'r ffurflen hon hefyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol AQA ac OCR â chydannau asesiad allanol a Chymwysterau Cyntaf BTEC, Cymwysterau Cenedlaethol BTEC a Dyfarniadau Technegol BTEC.

**Rhaid** defnyddio'r ffurflen hon i goladu'r dystiolaeth a **rhaid** i'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig ei chadw ar ffeil yn y ganolfan at ddibenion archwilio.

Dylid darllen Penodau 5 ac 8 o ddogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* cyn llenwi'r ffurflen hon.

**Rhaid i'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig neu'r aseswr sy'n gweithio yn y ganolfan llenwi'r ffurflen hon.**

|   |  |                                 |  |
|---|--|---------------------------------|--|
| <b>Enw'r ymgeisydd</b>  |  | <b>Dyddiad Geni</b>             |  |
| <b>Rhif yr Ymgeisydd</b>  |  | <b>Cyfres arholiadau gyntaf</b> |  |
| <b>Blwyddyn (blynyddoedd) academiaidd y bydd yr ymgeisydd yn astudio'r cwrs</b> |  | <b>Enw'r ganolfan</b>           |  |
| <b>Cyfeiriad E-bost y Ganolfan</b>  |  | <b>Rhif y ganolfan</b>          |  |

**Arholiadau y gwneir cais ar eu cyfer** (Noder: **Nid oes** angen llenwi'r rhan hon ar gyfer ymgeisydd TAG neu TGAU oni bai bod angen cyfeirio'r cais at gorff dyfarnu.)

| <b>Corff dyfarnu</b> | <b>Teitl y Fanyleb</b> | <b>Cod cofrestru'r fanyleb</b> | <b>Cod y gydran/uned</b> |
|----------------------|------------------------|--------------------------------|--------------------------|
|                      |                        |                                |                          |
|                      |                        |                                |                          |
|                      |                        |                                |                          |
|                      |                        |                                |                          |
|                      |                        |                                |                          |
|                      |                        |                                |                          |
|                      |                        |                                |                          |

Enw'r Ymgeisydd:

## Rhan 1

### Cwblhewch yr adrannau perthnasol ar gyfer y trefniant (trefniadau) mynediad gofynnol.

- Egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth a/neu darllenydd cyfrifiadur/darllenydd (tudalen 3)
- 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd (tudalen 4)
- 26% i 50% amser ychwanegol neu amser ychwanegol dros 50% (tudalen 5)
- Mynediad at ffôn symudol at ddibenion meddygol (tudalen 6)
- Goruchwyllo o bell (tudalen 7)
- Amrywiad amserlen (tudalen 8)

### Tystiolaeth ar gyfer egwyliau gorffwys a/neu darllenydd cyfrifiadur/darllenydd

Gweler adran 5.1 o ddogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* i gael gwybodaeth am egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth ac adran 5.5 am wybodaeth am y defnydd o darllenydd cyfrifiadur/darllenydd.

**Beth yw natur nam yr ymgeisydd?**

**Cadarnhewch fod:**

- **egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth a/neu**
- **y defnydd o ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd**

**yn adlewyrchu ffordd arferol a chyfredol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan.**

**Sylwch:**

Nid oes gofyniad i brosesu cais am yr egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

**Rhaid** prosesu cais ar gyfer darllenydd cyfrifiadur/darllenydd gan ddefnyddio *Trefniadau Mynediad Ar-lein*.

**Enw'r Ymgeisydd:**

## **Tystiolaeth o 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd.**

Gweler adran 5.2 o ddogfen CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* am wybodaeth ar 25% amser ychwanegol ac adran 5.7 am wybodaeth am y defnydd o ysgrifennydd.

**Cadarnhewch mai:**

- **25% o amser ychwanegol a/neu**
- **ysgrifennydd**

**yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan**

**Darparwch dystiolaeth gan staff addysgu bod gan yr ymgeisydd anawsterau parhaus a sylweddol, a sut mae'r rhain yn effeithio'n sylweddol ar addysgu a dysgu.**

**Ar gyfer ymgeisydd sydd angen ysgrifennydd, cadarnhewch fod rhai pynciau (e.e. mathemateg, gwyddoniaeth) lle na all yr ymgeisydd ddefnyddio prosesydd geiriau gyda'r gwiriad sillafu a gramadeg neu'r cyfleuster testun rhagfynegol wedi'i ddiffodd.**

**Cwblhewch Rhan 2 i nodi'r dystiolaeth arbenigol a gedwir ar ffeil yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd.**

**Enw'r Ymgeisydd:**

## **Tystiolaeth am 26% i 50% o amser ychwanegol neu amser ychwanegol dros 50%**

Gweler adran 5.3 o ddogfen CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* am wybodaeth ar 26% i 50% amser ychwanegol ac adran 5.4 am wybodaeth ar amser ychwanegol dros 50%.

**Cadarnhewch fod gan yr ymgeisydd anawsterau sylweddol a pharhaus iawn wrth gael mynediad at wybodaeth a'i phrosesu, a'i fod yn anabl o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.**

**Darparwch dystiolaeth o anawsterau presennol yr ymgeisydd a sut maent yn cael effaith sylweddol iawn ar addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth.**

**Beth yw'r uchafswm o amser ychwanegol sydd ei angen?**

**Darparwch dystiolaeth o sut y penderfynwyd ar faint o amser ychwanegol sydd ei angen a dangos cyfranogiad staff addysgol wrth bennu faint o amser ychwanegol sydd ei angen.**

**Nodwch a fydd yr ymgeisydd yn gweithio'n annibynnol gyda:**

- papur braille
- papur wedi'i addasu a'i fwyhau

**Nodwch a fydd yr ymgeisydd yn defnyddio:**

- darllynydd cyfrifiadur/darllynydd
- ysgrifennydd
- prosesydd geiriau

**Cadarnhawch, heb ddefnyddio'r amser ychwanegol o hyd at 50% neu amser ychwanegol dros 50%, y byddai'r ymgeisydd o dan anfantais sylweddol iawn.**

**Cadarnhewch mai hyd at 50% o amser ychwanegol neu amser ychwanegol dros 50% yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan o ganlyniad uniongyrchol i'w anabledd.**

**Cwblhewch Rhan 2 i nodi'r dystiolaeth arbenigol a gedwir ar ffeil yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd.**

**Enw'r Ymgeisydd:**

## **Mynediad at ffôn symudol at ddibenion meddygol**

Gweler adran 5.19 o ddogfen CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* i gael gwybodaeth am fynediad i ffôn symudol at ddibenion meddygol.

**Beth yw cyflwr meddygol yr ymgeisydd?**

**Cadarnhewch mai'r angen i gael fynediad i'r ffôn symudol yn ystod arholiad yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio.**

**Noder:**

**Rhaid** i dystiolaeth ffurfiol fod ar gael i gadarnhau cyflwr meddygol yr ymgeisydd.

**Rhaid** i ymgeisydd sydd â chyflwr meddygol fod yn destun goruchwyliaeth 1:1 pan fydd ganddo/ganddi ei ffôn symudol i sicrhau uniondeb yr arholiad.

**Cwblhewch Rhan 2 i nodi'r dystiolaeth arbenigol a gedwir ar ffeil yn cadarnhau cyflwr meddygol yr ymgeisydd.**

**Enw'r Ymgeisydd:**

## **Goruchwyllo o Bell**

Gweler adran 5.20 o'r ddogfen CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* am ragor o wybodaeth ar oruchwyllo o bell.

**Beth yw natur nam yr ymgeisydd?**

**Cadarnhewch fod y canlynol i gyd wedi cael eu hystyried a'u diystyru:**

- yr ymgeisydd yn sefyll ei arholiadau yn y ganolfan trwy oruchwyllo ar wahân;
- goruchwylwr yn mynd i gartref yr ymgeisydd i gynnal pob arholiad;
- nid yw'r ymgeisydd wedi cwblhau rhai arholiadau yn barod ac a fyddai'n gallu bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer ystyriaeth arbennig.

**Cadarnhewch y byddai'r ymgeisydd dan anfantais trwy beidio â gallu sefyll ei arholiadau gan ddefnyddio goruchwyllo o bell.**

**Noder:**

Gall goruchwyllo arholiadau o bell fod yn dderbyniol mewn **amgylchiadau eithriadol** i gefnogi ymgeisydd na fyddai'n gallu sefyll ei arholiadau fel arall. Mae gan yr ymgeisydd:

- gyflwr meddygol neu seicolegol sydd wedi derbyn diagnosis ffurfiol; neu
- anabledd corfforol; neu
- afiechyd dros dro neu anaf dros dro sylweddol iawn.

**Rhaid** i dystiolaeth ffurfiol fod ar gael i gadarnhau nam yr ymgeisydd.

**Rhaid** i bennaeth y ganolfan gadarnhau bod modd rhedeg arholiad wedi'i oruchwyllo o bell yn unol â gofynion y corff dyfarnu a hefyd y disgwyliadau a nodwyd yn nogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.

**Cwblhewch Rhan 2 i nodi'r dystiolaeth arbenigol a gedwir ar ffeil yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd.**

Enw'r Ymgeisydd:

## Amrywiad ar yr amserlen i ymgeisydd ag anabledd

Gweler adran 5.21 o'r ddogfen CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* i gael gwybodaeth am yr angen am amrywiad ar amserlen i ymgeisydd ag anabledd.

**Beth yw natur anabledd yr ymgeisydd?**

**Cadarnhewch yr angen am amrywiad amserlen.**

**Noder:**

**Rhaid** i dystiolaeth ffurfiol fod ar gael i gadarnhau nam yr ymgeisydd.

Bydd *Trefniadau Mynediad Ar-lein* yn cymeradwyo ceisiadau lle dim ond un arholiad yn y gyfres sy'n cael ei drosglwyddo o sesiwn brynhawn gyhoeddedig i'r bore canlynol.

Bydd yn ofynnol i'r ganolfan gadarnhau y bydd yr ymgeisydd a'i riant (rhieni) / gofalw(y)r yn cadw at y gofynion ar gyfer goruchwyliaeth dros nos. **Rhaid** llenwi ffurflen datganiad o oruchwyliaeth dros nos a rhaid i'r ffurflen hon fod ar gael i'w harchwilio.

Bydd *Trefniadau Mynediad Ar-lein* yn gwrthod ceisiadau yn awtomatig lle cynigir y bydd angen mwy nag un amrywiad i'r amserlen yn ystod y gyfres arholiadau. Yna mae'n **rhaid** i'r ganolfan wneud atgyfeiriad ar-lein.

**Rhaid** cofnodi manylion llawn holl arholiadau'r ymgeisydd a fydd yn destun amrywiad amserlen fel rhan o'r atgyfeiriad ar-lein i'r corff dyfarnu. **Rhaid** darparu dyddiad a sesiwn arfaethedig pob arholiad.

**Cwblhewch Rhan 2 i nodi'r dystiolaeth arbenigol a gedwir ar ffeil yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd.**



Enw'r Ymgeisydd:

## Rhan 2

**Nodwch y dystiolaeth arbenigol a gedwir ar ffeil yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd.**

(**Noder: nid** yw hyn yn ofynnol ar gyfer egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth.)

Llythyr neu adroddiad gan:

- CAMHS
- seicolegydd cofrestredig HCPC
- ymgynghorydd meddygol arbenigol cofrestredig
- seiciatrydd
- therapydd iaith a lleferydd
- Gwasanaeth Arbenigol yr Awdurdod Lleol (e.e. Gwasanaeth Nam ar y Synhwyrâu neu Iechyd Galwedigaethol)
- EHP, Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol cyfredol
- tystiolaeth feddygol briodol arall

## Rhan 3

Ar sail y dystiolaeth a nodir yn y ffurflen hon, cofnodwch y trefniadau mynediad sy'n ofynnol.

- Egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth (**Noder: nid yw'r** trefniant hwn yn gofyn am gais ar-lein)
- 25% o amser ychwanegol
- 26% i 50% o amser ychwanegol
- Amser ychwanegol dros 50%
- Darllenydd cyfrifiadur/darllenydd
- Ysgrifennydd/technoleg adnabod lleferydd /prosesydd geiriau gyda gwiriwr sillafu, gramadeg a/neu destun darogan wedi'i alluogi
- Mynediad at ffôn symudol at ddibenion meddygol
- Goruchwyllo o Bell
- Amrywiad ar yr amserlen i ymgeisydd ag anabledd

Gwybodaeth ddewisol i'w defnyddio yn y ganolfan (**Noder: Nid** oes angen hyn at ddibenion arolygu)

Os yw'n ddefnyddiol, defnyddiwch y gofod hwn i gofnodi unrhyw drefniadau mynediad pellach y bydd gan yr ymgeisydd **nad oes** angen eu prosesu ar-lein (h.y. trefniadau sydd wedi'u dirprwyo i'r ganolfan):

|                                    |  |
|------------------------------------|--|
| <b>Ffurflen wedi'i llenwi gan:</b> |  |
| <b>Enw</b>                         |  |
| <b>Llofnod</b>                     |  |
| <b>Dyddiad</b>                     |  |